# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 14/11/2023 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gito Williams | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Caren Jones | Gwynfor Jones | Lleucu Jones | Catrin Roberts | Alaw Llewelyn Roberts |
| Rhys Llewelyn | Carys Roberts | Rhian Sanson | Pat Humphreys (Clerc) | |

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a cafodd Rhys Llewelyn ei longyfarch am gael ei urddo i Orsedd y Wladfa.

1. **Ymddiheuriadau.**
   Janice Evans.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Mared Llywelyn Williams – taliad y Cadeirydd.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 10/10/2023
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gareth Jones Eilio: Caren Jones
   Eglurodd un o'r aelodau bod gwybodaeth wedi dod i law ynglŷn â tir Mynydd Bach ac erbyn y pwyllgor nesaf mae'n gobeithio y bydd wedi cael mwy o amser i fynd ar ôl y mater.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - **Arwyddion 'Ffordd ar Gau' ar gyfer Sul y Cofio â'r Nadolig – Clerc**
     Cais yw hwn gan y Clerc i CTN archebu pedwar arwydd 'Ffordd ar Gau' ar gyfer gwasanaethau Sul y Cofio â gwasanaeth goleuo coeden nadolig Nefyn gan ei bod wedi cael dipyn o drafferth dros y penwythnos i gael yr arwyddion gan y person sydd yn eu menthyg i CTN bob blwyddyn.
     Penderfyniad: cytunodd pawb i'r clerc gael amcanbris gan gwmni lleol erbyn y pwyllgor nesaf.
   - **Bin gwyrdd Llyfrgell – Cadeirydd**
     Derbyniwyd cais gan staff y Llyfrgell am fin gwyrdd gan nad oes bin yna mwyach.
     Penderfyniad: cytunodd yr aelodau i'r Clerc archebu un gan Cyngor Gwynedd.

5. **Coed Nadolig a'r Gwasanaethau Goleuo – diweddariad –** Clerc
   Cafwyd diweddariad gan y Clerc. Mae bob dim wedi ei drefnu ar gyfer goleuo coeden nadolig Nefyn a cytunodd yr aelodau i gyfarfod yn Siop Siarad am 5.30yh ac yna mynd i'r lleoliadau i gau y ffyrdd fel y llynedd, mae'r Clerc am gysylltu hefo Dewi Pws i ddweud wrtho am fod yn Siop Siarad am 5.30yh. Mae un o aelodau Edern wedi ebostio'r Ysgol i ofyn os yw'r plant eisiau canu wrth y goeden sydd ar y bont yn Edern pan mae Sion Corn yn goleuo'r goeden ac mae'r Cadeirydd wedi cael cadarnhad gan Ysgol Morfa y bydd y plant yn gwneud rhywbeth bach o flaen y goeden a bydd Ffair Nadolig yr ysgol yn y Ganolfan i ddilyn.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

6. **Cyfrifon 1/4/2017 – 31/3/2022 adroddiad yr archwilwyr allanol –** Clerc
Derbyniwyd y Ffurflenni Blynyddol yn ôl gan yr Archwilwyr Allannol ynghŷd â'u adroddiad am y blynyddoedd 2017-2018, 2018-2019, 2019-2020, 2020-2021 a 2021-2022 ac mae'r Clerc wedi eu hanfon i'r aelodau drwy ebost. Fe fydd angen eu arddangos ar wefan CTN ac yn Siop Siarad am gyfnod o 14 diwrnod ac hefyd arddangos hysbyseb cwblhau archwiliad. Mae angen penderfynnu faint o dâl i godi am gopiau papur o'r Ffurflenni Blynyddol gan fod hawl gan y cyhoedd ofyn am gopi.
Penderfyniad: pasiwyd i godi tâl o £10 y copi.
Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Gito Williams

7. **Ymddiswyddiad Dafydd Dobson**
Derbyniodd y Clerc ebost gan Dafydd Dobson yn ymddiswyddo.
Penderfyniad: derbyn ei ymddiswyddiad a diolch iddo am ei waith a'r Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i lenwi'r sedd wag.

8. **Gosod arwydd 'Dim Parcio' yn Traeth Nefyn –** Clerc
Mae'r Clerc wedi derbyn yr arwydd 'Dim Parcio' a archebwyd i'w osod ar y traeth yn Nefyn ac eisiau penderfynnu lle i'w leoli a pwy sydd am ei osod.
Penderfyniad: mae un o'r aelodau am gyfarfod y Clerc ar y safle i benderfynnu lle i'w leoli a'r Clerc i gysylltu hefo'r contractwr lleol sydd yn arfer gwneud gwaith i CTN.
Cynnig: Rhys Llewelyn     Eilio: Catrin Roberts

9. **Arwydd Parcio Lôn Gam –** Catrin Roberts
Cais yw hwn gan un o'r aelodau i gael arwydd ar ben Lôn Gam cyn mynd i lawr i'r traeth i ddweud wrth y gyrrwyr nad oes lle i barcio na troi rownd yno. Yn ystod yr haf mae yna gymaint o geir yn mynd i lawr i'r traeth i lansio eu cychod a parcio eu ceir mae yna dagfeydd difrifol yna fel bod neb yn gallu mynd lawr na dod i fyny. Byddai arwydd lle mae'r warden wedi cael ei lincio iddo ac yn gallu pwyso botwm i rybuddio gyrrwyr nad oes lle yn y gwaelod yn osgoi yr holl dagfeydd.
Penderfyniad: y Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i gael caniatad i rhoi arwydd i fyny ac yna cysylltu hefo contractwyr lleol i ofyn lle mae posibl cael arwydd o'r math.

10. **Rhodfa'r Môr Nefyn –** Arfon Hughes
Mae un o'r aelodau wedi sylwi fod y tyllau a gafodd eu trwsio y llynedd wedi dod yn ôl ar Rhodfa'r Môr Nefyn ac mae o wedi cysylltu hefo'r aelod lleol i dweud wrtho. Mae'r aelod lleol wedi cysylltu hefo Rhys Gwyn Roberts sef Swyddog Llwybr yr Arfordir gan ei bod yn rhan o llwybr yr arfordir ac fe addawodd lenwi'r tyllau i mewn.
Penderfyniad: y Clerc i gysylltu hefo Rhys Gwyn Roberts i'w atgoffa o'r sgwrs a gafodd hefo'r aelod lleol pan addawodd lenwi'r tyllau gan ei fod yn rhan o lwybr yr arfordir a gofyn am gadarnhad o hyn.

11. **Dyfynbris gwaith cynnal a chadw y cae aml ddefnydd –** Clerc
Mae'r Clerc wedi derbyn amcanbris i gynnal a chadw'r cae aml ddefnydd yn Nefyn, mae dau bris wedi ei dderbyn sef cytundeb blwyddyn hefo 6 ymweliad i'r cae a pris am ddim ond un ymweliad, mae modd cael 5% i ffwrdd o'r cytundeb blwyddyn os y derbynnir cytundeb 5 mlynedd.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Penderfyniad: pasiwyd i dderbyn y pris am yr un ymweliad a'r flwyddyn nesaf ei ychwanegu ar y praesept fel y gellir cymeryd y cytundeb 5 mlynedd o hynny allan.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

**12. Gosod plac i gofio Herbert Rees Wilson –** Arfon Hughes
Derbyniwyd cais gan berchennog Summer Hill Nefyn i osod plac yn Nefyn i gofio am Professor E Herbert Rees Wilson a oedd yn un o'r tîm a wnaeth ddarganfod DNA, yn Summer Hill yr oedd yn byw cyn iddo symud i fyw i'r Alban. Mae'r clerc wedi edrych i mewn i hyn ac mae Gwerfyl Gregory o Amgueddfa Forwrol Llŷn wedi hel dipyn o'i hanes ac wedi ei basio ymlaen i'r clerc. Hefyd ffurfiwyd is-bwyllgor hanesyddol i ymdrin a'r mater yma tua dwy flynedd yn ôl. Awgrymodd yr aelod lleol y byddai modd rhoi cais am grant i'r AHNE tuag at hyn o'r gronfa Cymunedau Cynaliadwy.
Penderfyniad: yr Is-bwyllgor i gyfarfod dechrau'r flwyddyn i drafod y mater a rhoi gwahoddiad i Gwerfyl o'r Amgueddfa fod yn y cyfarfod a'r aelod lleol i edrych i mewn i'r grant.

**13. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
**Llythyr Goronwy Roberts – Swyddfa'r Post, Nefyn**
Derbyniwyd llythyr drwy'r post yn cwyno fod Swyddfa Post Nefyn wedi cau.
Penderfyniad: y clerc i yrru llythyr i Swyddfa'r Post a gyrru copi ohono i Goronwy Roberts.
Cynnig: Gareth Jones Eilio: Arfon Hughes
**Ebost Rebecca Jones - Bedd ym mynwent Nefyn**
Derbyniwyd ebost gan Rebecca Jones sydd yn cwyno bod rhywun wedi bod yn ymyrryd a bedd ei thad ac yn gofyn os oes modd i CTN wneud rhywbeth i atal hyn ddigwydd eto.
Penderfyniad: rhoi arwydd i fyny, yn y maes parcio ac ar y giat fawr, yn gofyn i bawb barchu'r beddi yn y fynwent, y clerc i archebu'r arwydd gan Designer Signs a'r aelodau i anfon awgrymiad geiriad i'r clerc yn gyntaf. Mae angen trwsio'r arwydd 'Dim Cwn' yno hefyd.

**14. Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

Ceisiadau Diweddarach
**C23/0885/42/TC** – Llwyn Celyn, Lôn Cae Glas, Edern – parhau i ddefnyddio eiddo fel ail gartref a llety gwyliau tymor byr.
Penderfyniad: Gwrthod – gormodedd o dai gwyliau yn yr ardal, mae 25% o dai Edern yn dai gwyliau a 15% ydi trothwy gormodedd gan Cyngor Gwynedd.
Cynnig: Gareth Jones Eilio: Rhys Llewelyn
**C23/0873/42/DT** – Tyn Llwyn, Lôn Pwll Clai, Edern – cais i godi estyniadau ar gefn yr eiddo.
Penderfyniad: Gwrthod – ddim yn gweddu hefo adeiladau cyfagos.
Cynnig: Caren Jones Eilio: Alaw Llewelyn Roberts
**C23/0890/42/DT** – Pen Coed, Lôn Cytun, Morfa Nefyn – ail gyflwyniad o gais C23/0630/42/DT a wrthodwyd trwy ychwanegu ffenestri cromen i greu gofod to a thynnu'r elfen balconi.
Penderfyniad: Gwrthod – gor-edrych ar yr ystad o dai cyfagos.
Cynnig: Caren Jones Eilio: Rhian Sanson

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

**C23/0889/42/LL** – Bodowen, Rhodfa'r Môr, Nefyn – addasiadau ac estyniadau i dŷ preswyl presennol i gynnwys estyniad cefn ynghŷd ag addasu ystafell ardd bresennol i mewn i anecs sydd yn defnydd atodol i'r prif annedd.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Mared Llywelyn Williams
**C23/0888/42/DT** – Pwll Mawr, Lôn Penrallt, Nefyn – estyniad arfaethedig rhwng y tŷ a'r modurdy er mwyn eu cysylltu a chreu porth/ystafell haul.
Penderfyniad: Gwrthod – gor-ddatblygiad o adeilad traddodiadol a ddim yn gweddu i gymeriad yr adeilad.
Cynnig: Caren Jones  Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**15. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**
- Cyflog y Clerc – £1364.90 sy'n cynnwys y goramser a basiwyd ym mhwyllgor mis diwethaf (taliad BACS).
- Mared Llywelyn Williams – ail daliad y cadeirydd - £300.00
- Cyngor Gwynedd – rhent rir Rhandiroedd y Ddôl Nefyn 2023-2024 - £100.00
- Bacstal – gwasanaeth cyflogau - £157.20
- Lite Ltd – goleuadau coeden nadolig Morfa ac Edern - £2610.00
- Andy Birch – ail baentio arwyddion Bryn Mynach â'r Ddôl - £485.00
- Clerks & Council's Direct – tanysgrifiad - £15.50
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £80.14
- Alan Adams – taliad 8 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1440.00
- Chris Brady – stand i ddal y torchau yn Morfa Nefyn - £252.00
- HMRC – PAYE Mis 7 - £242.11
- John Gwynfor Jones – angladd Elwyn Hughes a Anne Christine Williams - £575.00
- Colin Dobson Roofing Cyf – gosod 2 lechen newydd ar do'r Llyfrgell - £151.20
- D M Parry – trydydd taliad mynwent Nefyn - £990.00
- E.On Next – trydan Llyfrgell 11/10/2023 – 31/10/2023 - £8.23
- RBL Poppy Appeal – 3 torch - £75.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Gwynfor Jones

**16. Taliadau wedi eu derbyn**
- G D Roberts – angladd Hugh Vaughan Owen Thomas - £375.00
- Osian Williams – rent cae fynwent Nefyn - £150.00

Cafwyd cais gan un o aelodau Edern i wneud y stand sydd yn dal y torchau wrth y gof-golofn yn Edern yn fwy. Dim ond lle i 3 torch sydd yna ac mae angen lle i 5 torch felly mae'r aelod sydd yn arfer cysylltu hefo'r gôf am ofyn iddo ail wneud y stand a'i wneud yn fwy.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com